**Polisi Chwarae Ysgol Cybi**

Mae’r ysgol hon yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod yr holl blant sy’n ei mynychu yn cael digon o amser i chwarae a bod llefydd da i chwarae’n rhydd fel rhan o’u diwrnod.

I blant, chwarae yw un o’r agweddau pwysicaf o’u bywydau. Mae chwarae yn cyfrannu at iechyd, lles a hapusrwydd plant, yn ogystal â’u dysgu a’u gallu i ddysgu. Dim ond gyda’u ffrindiau yn yr ysgol y mae rhai plant yn cael cyfle i chwarae. Yn bwysicaf oll, mae chwarae yn cyfrannu at allu plant i ffynnu ac i oroesi.

Rydym yn credu y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol iawn i fywydau plant drwy roi gwerth ar eu cymhelliad a’u hawydd i chwarae, a thrwy ddarparu ar gyfer ystod eang o gyfleoedd chwarae ar iard yr ysgol cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol.

Mae’r ysgol yn cydnabod y bydd plant yn creu ac/neu’n ymofyn am sefyllfaoedd heriol yn naturiol; drwy wneud y mwyaf o’u chwarae, gall rai plant gael damweiniau, baeddu, gwlychu neu gael eu cynhyrfu. Rydym yn cydnabod bod angen cydbwyso unrhyw risg posibl o niwed gyda’r potensial o brofiad da y gall ddod o’u cyfranogiad mewn ffurf benodol o chwarae. Byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi plant yn profi niwed corfforol neu emosiynol difrifol drwy reoli’r cyfleoedd chwarae rydym yn eu darparu yn ofalus.

Mae’r ysgol hon yn credu bod agwedd oedolyn tuag at ymddygiad chwarae plant a’u dealltwriaeth ohono yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd y cyfleoedd chwarae a gynhigir o fewn a thu allan i’r ysgol. Bydd yr ysgol hon

felly'n ymofyn am gyfleoedd hyfforddiant ac yn cefnogi ymchwil ymysg ei staff fel eu bod yn hyderus i hwyluso chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd a'i gyfarwyddo gan y plant.